**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

**Rebecca Evans AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio**
**Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr David Clubb (Cadeirydd)
Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru

NationalInfrastructureCommissionforWales@gov.wales

01 Ebrill 2026

Annwyl Dr David Clubb,

Diolch am gyhoeddi adroddiad Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru (NICW) "*Storm Berffaith: A yw Cymru'n gwneud digon i gydlynu camau gweithredu ac ennyn ymgysylltiad cymunedau i addasu ein seilwaith i hinsawdd sy'n newid?"* yn gynt.

Yn yr Atodiad isod, mae ymatebion Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn adroddiad NICW Storm Berffaith.

Hoffem ddiolch i'r Comisiwn am eu hadroddiad craff ac ystyriedig, ac am y trafodaethau dilynol gwerthfawr a gawsoch gyda'n swyddogion i drafod eich canfyddiadau.

Yn unol â'r trafodaethau hynny, credwn fod yr adroddiad yn cynnwys llawer o bwyntiau pwysig a pherthnasol ar ddatblygu seilwaith, parodrwydd risg mewn cymunedau a chael ymgysylltiad yn iawn sy'n berthnasol ym maes addasu i'r hinsawdd ac yn llawer ehangach.

Yn dilyn eich trafodaethau gyda swyddogion, eich cais i ni oedd dod o hyd i'n hatebion ymarferol a radical ein hunain i'r materion a'r cyfleoedd a godwyd gan eich adroddiad. Dyna'r dull yr ydym wedi ceisio ei gymryd yn yr ymateb hwn, gan ystyried y pwyntiau a godwyd gan yr adroddiad a dod o hyd i'r ffordd ymlaen yr ydym yn teimlo sydd orau i fynd i'r afael â hwy.

Mae'r ddogfen yn ymateb i bob un o'r argymhellion fel y'u drafftiwyd yn yr adroddiad fel y'u gwelir.. Yn unol â'ch trafodaethau gyda swyddogion, mae yna feysydd lle rydym yn cytuno â'r canlyniad rydych chi'n ei ddisgrifio yn yr adroddiad, ond yn teimlo bod dull amgen i'w gymryd na'r hyn a amlinellwyd yn yr argymhelliad penodol a roddir. Yn yr achosion hyn rydym wedi

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwrthod yr argymhelliad fel y'i drafftiwyd ond yn nodi'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud mewn ymateb i'r pwyntiau sylweddol a godwyd.

Mae swyddogion ledled Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i ymgysylltu a gweithio gyda chi yn y dyfodol wrth i ni geisio mynd i'r afael â'r pwyntiau sylweddol a godwyd yn eich adroddiad.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

**ATODIAD**

**Argymhellion**

*1. **Bil Addasu i'r Hinsawdd** - Yn nhymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Bil Addasu i'r Hinsawdd a ddylai osod targedau cyfreithiol rhwymol ar gyfer addasu i'r hinsawdd a chreu fframwaith ar gyfer gweithredu a newid.*

Ymateb: **Gwrthod**

Byddai'r argymhelliad hwn fel y'i drafftiwyd i lywodraeth yn y dyfodol ymateb iddo gan y byddai angen Deddfwriaeth Sylfaenol. Wedi dweud hynny, mae hwn yn faes yr ydym yn parhau i fod yn awyddus i adeiladu arno a'i atgyfnerthu, gan gynnwys ar y pwyntiau a gyflwynwyd yn yr adroddiad megis gwneud cyfrifoldeb am addasu yn gliriach, cryfhau gwybodaeth a thryloywder ar addasu i'r hinsawdd ac annog gwaith asesu risg rhagweithiol ledled Cymru. Byddai swyddogion yn croesawu ymgysylltu parhaus â'r Comisiwn wrth i ni geisio galluogi a gyrru cynnydd ymhellach ar addasu i'r hinsawdd ledled Cymru.

Rydym yn cytuno â chanfyddiad yr adroddiad bod gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae o ran gosod cyfeiriad clir ar addasu i'r hinsawdd. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau fod pob person a sefydliad yng Nghymru yn gwybod beth y gallant ac y dylent ei wneud i baratoi ar gyfer heriau a chyfleoedd ein hinsawdd sy'n newid. Mae'r Pwyllgor Newid Hinsawdd hefyd wedi tynnu sylw at y rôl arweinyddiaeth allweddol hon.

Rydym wedi cymryd camau pwysig tuag at hyn yn ein Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru, sy'n cynnwys gofynion i grwpiau fel y sector cyhoeddus, busnes a diwydiant a'r cyhoedd yn erbyn pymtheg maes y Strategaeth. Ein barn ni yw defnyddio ein strategaethau a'n negeseuon i osod y cyfeiriad hwn yn ddull mwy darbodus, mwy ystwyth a mwy cymesur na deddfwriaeth sylfaenol ychwanegol, a fyddai'n cymryd sawl blwyddyn i'w datblygu a'i weithredu.

Er ein bod yn cydnabod bod mwy i'w wneud ar arweinyddiaeth a gosod cyfeiriad, ein barn ni yw bod y fframwaith deddfwriaethol presennol yn ddigonol i alluogi gweithredu effeithiol ar addasu i'r hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynhyrchu adroddiadau ar amcanion, camau gweithredu a blaenoriaethau Cymru ar addasu. Mae'r Ddeddf Newid Hinsawdd hefyd yn cynnwys pŵer penodol i wahodd neu ei gwneud yn ofynnol i adrodd ar barodrwydd hinsawdd.

Yn ogystal, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu mewn ffyrdd sy'n cefnogi gwytnwch a meddwl yn y tymor hir. Ein barn ni yw ei bod yn amhosibl i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r Ddeddf os nad ydynt yn ystyried addasu i'r hinsawdd fel rhan o'u meddwl tymor hir.

*2. **Yr Uned Gwydnwch Seilwaith Cenedlaethol***

*Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Uned Gwydnwch Seilwaith Cenedlaethol, gyda Fforwm Cyswllt Addasu i'r Hinsawdd yng Nghymru cysylltiedig, i fynd i'r afael â pherchnogaeth aneglur risgiau systemig newid yn yr hinsawdd.*

Ymateb: **Derbyn mewn egwyddor**

Rydym yn deall pwysigrwydd sicrhau bod perchnogaeth glir o weithgarwch addasu i'r hinsawdd, a bod hyn yn gweithio i ysgogi gweithredu cydgysylltiedig ar lefel ranbarthol ac mewn cymunedau. Mae hwn yn faes lle rydym yn awyddus i wneud mwy a lle byddem yn gwerthfawrogi ymgysylltu pellach â'r Comisiwn.

Ar lefel Llywodraeth Cymru, mae addasu i'r hinsawdd yn gyfrifoldeb traws-lywodraethol ble y mae gan pob gweinidog rôl. Er bod tîm polisi canolog bach yn y portffolio hinsawdd, sy'n gweithio i gydlynu a galluogi gweithgarwch ar draws timau, mae'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch yn digwydd o fewn portffolios unigol ac mae pob tîm portffolio Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ystyried addasu i'r hinsawdd yn ei waith.

Ein barn ni yw bod y dull hwn o safbwynt polisi Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd ar addasu i'r hinsawdd. Rydym hefyd yn disgwyl i'r dull cydweithredol hwn o addasu ddigwydd ar lefelau rhanbarthol a lleol a alluogir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a fforymau trawsbynciol gan gynnwys byrddau gwasanaethau cyhoeddus, cyd-bwyllgorau corfforaethol a fforymau gwytnwch lleol.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr heriau a godwyd yn yr adroddiad ynghylch deall pwy sydd yn gyfrifol am fregusrwydd seilwaith i effeithiau newid yn yr hinsawdd ar lefel leol neu ranbarthol. Mae hwn yn faes lle rydym yn credu bod mwy i'w wneud ar draws ein timau hinsawdd, seilwaith, cynllunio a gwytnwch i osod cyfeiriad a sicrhau bod eglurder o ran cyfrifoldeb. Byddai hyn yn cefnogi ymhellach waith fforymau gwytnwch lleol, sydd, fel y nodwyd yn yr adroddiad, eisoes yn dwyn ynghyd ymatebwyr brys Categori 1 a 2, y sector gwirfoddol a phartneriaid amddiffyn i asesu risg, datblygu a phrofi cynlluniau argyfwng ac i ddatblygu galluoedd ymateb ac adfer.

Mae'r Fforymau Gwydnwch Lleol (LRFs) yn darparu asgwrn cefn gweithgarwch amddiffyn sifil lleol yng Nghymru, gan sicrhau bod yr holl asiantaethau perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd i asesu risgiau, cynllunio ar gyfer argyfyngau, ymateb ar y cyd, a helpu cymunedau i adfer.

Ers 2024-25, mae LRFs Cymru wedi cael eu cefnogi gyda chyllid pwrpasol gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwaith gwytnwch amlasiantaethol. Mae eu gwaith yn cael ei oruchwylio gan Fforwm Gwydnwch Cymru (WRF**),** y corff strategol, ledled Cymru sy'n gyfrifol am ddarparu arweinyddiaeth, atebolrwydd, sicrwydd ar weithgarwch gwytnwch, a chydlynu ar draws System gwytnwch Cymru. Mae'r WRF yn cael ei gadeirio gan y Prif Weinidog.

Cefnogir WRF gan Bartneriaeth Gwydnwch Cymru (WRP) sy'n cydlynu parodrwydd ar gyfer argyfwng ledled Cymru, yn sbarduno cysondeb ar draws yr LRFs, yn sicrhau bod risgiau, gwersi a rhwystrau yn cael eu gweithredu'n briodol, yn rhoi sicrwydd i'r WRF ar gyflawni, ac yn cryfhau cyfathrebu ac arfer da ar draws y gymuned ymatebwyr. Mae'r WPR yn cael ei gadeirio gan Brif Swyddog Diogelwch Cenedlaethol a Gwydnwch Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn parhau i ddarparu gweithgarwch parodrwydd ac ymateb i argyfwng drwy'r strwythur hwn, wrth weithio ar draws timau polisi i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad.

3. ***Ymgysylltu â Chymunedau***
*Dylid ymgysylltu cynnar, cynhwysol a chyfranogol gyda phob cymuned ar strategaethau a chynlluniau addasu i'r hinsawdd.*

Ymateb: **Derbyn**

Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig cynnwys y cyhoedd ar bob cam yn y broses o wneud penderfyniadau ar addasu i'r hinsawdd. Mae gan gymunedau wybodaeth leol hanfodol am lifogydd, gwres, a materion eraill, a gallant chwarae rhan allweddol wrth lunio atebion priodol sy'n seiliedig ar leoedd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd i Gymru yn pwysleisio sut mae deialog gyhoeddus yn chwarae rhan ganolog wrth gynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol. Yn unol â hyn, rydym eisoes yn cyflawni ymgysylltu allgymorth drwy fentrau fel Wythnos Hinsawdd Cymru a Chronfa Grant Sgyrsiau Hinsawdd a byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn dulliau mwy parhaus o ymarfer trafod, ochr yn ochr â'r gweithgareddau blaenllaw hyn.

Er mwyn cyflawni'r argymhelliad hwn, byddwn yn adeiladu ar argymhellion yr Adolygiad o ddulliau ymgynghori â’r cyhoedd a gyhoeddwyd yn 2025, a bydd yn parhau i ddatblygu offer ac adnoddau i wella ein gallu ein hunain (a gallu eraill) i gymhwyso dulliau trafod effeithiol i lywio atebion seilwaith cenedlaethol a lleol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn awyddus i weithio gyda'r Comisiwn wrth i ni gryfhau ac aeddfedu ein dull ymhellach.

4. ***Prif Swyddog Cyfranogiad***
*Erbyn 2028, dylai Llywodraeth Cymru greu swydd y Prif Swyddog Cyfranogiad.*
*Bydd y rôl hon yn arwain ar draws y llywodraeth i wella sut mae dinasyddion yn ymwneud â phenderfyniadau.*

Ymateb: **Gwrthod**

Rydym yn cytuno â chanfyddiadau'r adroddiad bod ymgysylltu â chymunedau yn hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar unrhyw lefel, ac nid yw hyn wedi'i gyfyngu i weithgarwch addasu i'r hinsawdd. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae gan Lywodraeth Cymru a phob corff cyhoeddus o dan y Ddeddf ddyletswydd i gynnwys pobl wrth wneud penderfyniadau fel un o'r Pum Ffordd o Weithio.

Mae nifer o adrannau swyddogaethol o fewn Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithredu rhaglenni ymgysylltu cyfranogol i sicrhau llunio polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chynhwysol. Er ein bod yn cytuno â chanfyddiadau'r Comisiwn bod yn rhaid i ni barhau i fynd ymhellach ar ymgorffori a galluogi cyfranogiad ar draws ein gweithgaredd, a pharhau i annog cyrff cyhoeddus eraill i wneud yr un peth yn eu gwaith, nid ydym yn teimlo y byddai argymhelliad penodol Prif Swyddog Cyfranogiad yn mynd i'r afael â'r rhwystrau ymarferol i wneud hyn mor effeithiol â phosib, yn enwedig gan y byddai angen cyllid y byddai angen dod o hyd iddo o gyllidebau presennol.

Credwn fod datblygiad y Pecyn Cymorth Ymgysylltu gan y Comisiwn yn adnodd pwysig am alluogi cyfranogiad effeithiol ac adeiladu ar ein dulliau presennol yn y maes hwn. Byddem yn croesawu ymgysylltu â'r Comisiwn ar sut y dylid rhannu'r pecyn cymorth a'i ddefnyddio ymhellach ledled Cymru.

5. ***Canllawiau Statudol ar gyfer Ymgysylltu â'r Gymuned***
*Yng nghyfnod nesaf y Senedd, dylid diwygio'r Deddfau Cynllunio i fynnu cynhyrchu canllawiau statudol sy'n gofyn am ymgysylltu â'r gymuned ystyrlon ym mhob cam o'r system gynllunio.*

Ymateb: **Ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru**

Byddai'r argymhelliad hwn fel y'i drafftiwyd i lywodraeth yn y dyfodol ymateb iddo gan y byddai angen diwygio'r Ddeddfwriaeth Sylfaenol.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn hyrwyddo gweithredu ar bob lefel o'r broses gynllunio sy'n arwain at wneud y mwyaf o'i gyfraniad at les-Cymru a'i chymunedau. Mae PPW yn nodi bod yn rhaid i bolisïau, cynigion a phenderfyniadau cynllunio geisio hyrwyddo datblygu cynaliadwy a chefnogi lles-pobl a chymunedau ledled Cymru. Gellir gwneud hyn drwy wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni'r saith nod llesiant-a thrwy ddefnyddio'r pum Ffordd o Weithio, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

*6. **Adolygu Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodyn Cyngor Technegol newydd***
*Erbyn 2028, dylai Llywodraeth Cymru adolygu PPW i sicrhau bod addasu i'r hinsawdd yn cael ei ystyried drwy'r amser. Dylid cynhyrchu TAN ar Addasu i'r Hinsawdd hefyd.*

Ymateb: **Ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru**

Byddai'r argymhelliad hwn fel y'i drafftiwyd i lywodraeth y dyfodol ymateb iddo. Gan bod PPW a Cymru'r Dyfodol yn nodi nifer o ystyriaethau addasu i'r hinsawdd megis gwytnwch perygl llifogydd, ynysoedd gwres trefol, ac ansawdd aer. Cydnabyddir nad yw'r rhain wedi'u cyfeirio'n benodol o dan bennod neu adran addasu i'r hinsawdd yn y dogfennau polisi.

*7. **Asesiad Effaith Amgylcheddol ac Asesiad Amgylcheddol Strategol***
*Erbyn 2028, dylid diwygio is-ddeddfwriaeth a chanllawiau er mwyn i addasu i'r hinsawdd fod yn rhan benodol o'r prosesau Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA).*

Ymateb: **Ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru**

Byddai'r argymhelliad hwn fel y'i drafftiwyd i lywodraeth y dyfodol ymateb iddo. Mae Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 yn nodi yn Atodlen 4 (Gwybodaeth i'w chynnwys mewn datganiadau amgylcheddol) y dylai Datganiadau Amgylcheddol gynnwys gwybodaeth am yr effeithiau sy'n berthnasol i addasu i'r hinsawdd.

*8. **Gwelliannau i'r Llyfr Gwyrdd***

*Dylai Llywodraeth y DU ddiwygio'r 'Llyfr Gwyrdd' i roi pwysau cyfartal i addasu i'r hinsawdd wrth asesu prosiectau seilwaith newydd.*

Ymateb: **Nid ar gyfer Llywodraeth Cymru**

Mae'r argymhelliad hwn i Lywodraeth y DU ei ddatblygu, fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad ac rydym wedi ymrwymo i annog dulliau buddsoddi cynaliadwy a gwerth am arian o ran addasu i'r hinsawdd ac yn ehangach.

O safbwynt Llywodraeth y DU, [mae'r Llyfr Gwyrdd ]wedi cael ei adolygu'n ddiweddar gan Drysorlys EF, a oedd yn cynnwys ymgynghoriad helaeth ac mae fersiwn newydd wedi'i chyhoeddi yn ddiweddar. Mae nifer o'r newidiadau yn y fersiwn newydd yn effeithio ar y materion a godwyd:

- Pwysigrwydd yr achos strategol o ran pennu y gorchmynion polisi a'r amcanion buddsoddi. Mae hyn yn allweddol i sicrhau bod tystiolaeth berthnasol yn cael ei defnyddio i gynhyrchu opsiynau addas ar gyfer gwerthuso.
- Sicrhau bod y Gymhareb Cost a Budd yn cael ei gweld yng nghyd-destun ystod o dystiolaeth a dadansoddiad i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i ffactorau perthnasol nad ydynt yn hawdd eu moneteiddio.
- Mae adolygiad o'r gyfradd ddisgownt wedi'i gomisiynu i sicrhau ei bod yn dal i fod yn addas i'r diben neu i argymell newidiadau angenrheidiol.

Nid yw'r Llyfr Gwyrdd yn gwahaniaethu rhwng sectorau neu fathau o ymyrraeth nac yn eu pwysoli'n wahanol. Mae'n fater i'r rhai sy'n drafftio ac yn gwerthuso'r achosion busnes i sicrhau bod ffactorau perthnasol yn cael eu hystyried. Gall pwysoli mathau o ymyrraeth yn wahanol fod yn fwy tebygol o gyflwyno rhagfarn nag i gywiro unrhyw anghydbwysedd posibl neu ganfyddedig oherwydd ei fod yn cyflwyno mwy o oddrychedd ac, o bosibl, llai o gysondeb.

Edrychodd adolygiad blaenorol o'r Llyfr Gwyrdd (2020) hefyd ar gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i effeithiau amgylcheddol. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori ag arbenigwyr economaidd blaenllaw perthnasol. Daeth yr adolygiad hwnnw i'r casgliad na ddylai'r Llyfr Gwyrdd newid y gyfradd ddisgownt ar gyfer effeithiau amgylcheddol.

Pan fo costau neu fuddion yn cronni dros y tymor hwy, cymhwysir cyfradd ddisgownt is ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhannol i adlewyrchu ansicrwydd y gyfradd ddisgownt dros y tymor hwy.

Yn fwy cyffredinol, mae'n hanfodol i unrhyw arfarniad gasglu tystiolaeth gadarn ar effeithiau uniongyrchol ac ehangach unrhyw ymyrraeth er mwyn sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio'n briodol ac y dylai tystiolaeth o'r fath fod yn wrthrychol ac yn cael ei phrofi.

Mae ein Strategaeth Buddsoddi mewn Seilwaith Cymru (WIIS) yn hyrwyddo cynllunio ariannol a buddsoddi cynaliadwy, hirdymor drwy osod fframwaith strategol deng-mlynedd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sydd wedi'u gwreiddio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r WIIS yn annog penderfyniadau seilwaith sy'n ystyried cynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, ac yn gweithredu hyn trwy Gynlluniau Cyllid Seilwaith sy'n cysylltu dyraniadau cyfalaf blynyddol â nodau hirdymor.

*9**. Sefydlu Hwb  Dyfodol Hinsawdd***
*Yn nhymor nesaf y Senedd, dylai Llywodraeth Cymru sefydlu 'Hwb Dyfodol yr Hinsawdd' fel canolfan ragoriaeth a chefnogaeth ar gyfer ymgysylltu â chymunedau mewn seilwaith hirdymor a chynllunio addasu i'r hinsawdd.*

Ymateb: **Ar gyfer Llywodraeth nesaf Cymru**

Byddai'r argymhelliad hwn fel y'i drafftiwyd i lywodraeth y dyfodol ymateb iddo.

Fel y soniwyd yn ein hymateb i adroddiad cynharach NICW 'Meithrin y gallu i wrthsefyll llifogydd yng Nghymru erbyn 2050', rydym yn cydnabod yr angen i alluogi dulliau system

gyfan sy'n seiliedig ar le o addasu i'r hinsawdd mewn cymunedau ac mae hyn yn rhywbeth y byddai gennym ddiddordeb ei archwilio ymhellach gyda'r Comisiwn ac eraill.

Rydym am dynnu sylw at Maximising UK Adaptation to Climate Change (MACC) Hub a ariennir gan UKRI / Defra sy'n darparu porth gwybodaeth sy'n cynnwys ymchwil, canllawiau, astudiaethau achos ac offer ymarferol ar gyfer cynllunio addasu. Mae hyn yn cynnwys tudalen benodol gydag adnoddau penodol i Gymru. Mae'r rhaglen MACC gyfredol hefyd yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth meithrin gallu, ac yn integreiddio data a modelau hinsawdd i gefnogi dadansoddi risg seilwaith systemig.

Rydym wrthi'n ymgysylltu â Defra a thîm MACC Hub a byddwn yn parhau i edrych ar y ffordd orau i sicrhau bod y gwaith hwn yn parhau i'r dyfodol a bod gan gymunedau a rhanddeiliaid yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gweithgareddau addasu rhagweithiol a llwyddiannus.

Ar hyn o bryd rydym hefyd yn adolygu rôl a chwmpas Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wrth ddarparu cymorth i sector cyhoeddus Cymru mewn perthynas â lliniaru ac addasu newid yn yr hinsawdd, a rydym yn parhau i ddatblygu ein hwb digidol Gweithredu dros yr Hinsawdd Cymru sy'n darparu gwybodaeth ac adnoddau defnyddiol i'r cyhoedd.

*10.* ***Y Gronfa Addasu a Gwydnwch i Newid yn yr Hinsawdd***
*Rydym yn ailadrodd ein hargymhelliad yn llifogydd 2024 ar gyfer cronfa newid hinsawdd ac addasu traws-sector newydd.*

Ymateb: **Gwrthod**

Fel y soniwyd yn ein hymateb i adroddiad cynharach NICW Meithrin y Gallu i Wrthsefylli Llifogydd yng Nghymru erbyn 2050, rydym yn cydnabod yr angen am gyllid cynaliadwy a digonol ar gyfer gweithgareddau addasu yng Nghymru, fel y gall sefydliadau a chymunedau baratoi ar gyfer ein hinsawdd sy'n newid a'r heriau a'r cyfleoedd y bydd yn eu cyflwyno.

Rydym yn disgwyl i sefydliadau gymhwyso dull hirdymor o gynllunio a buddsoddi seilwaith, gan ystyried ystod o dueddiadau hirdymor gan gynnwys effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae Strategaeth Buddsoddi mewn Seilwaith Cymru yn nodi, wrth ddatblygu cynigion buddsoddi mewn seilwaith, fod yn rhaid i adrannau gwariant ystyried natur hirdymor y datblygiad a chydnabod goblygiadau newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys perygl llifogydd. Mae Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru hefyd yn tanlinellu pwysigrwydd gwytnwch hinsawdd wrth gynllunio gweithgarwch ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Ein barn ni yw trwy ymgorffori'r angen am addasu i'r hinsawdd yn ein cyllid cynllunio a seilwaith, y gallwn hyrwyddo dull integredig ac ystyriol yn hytrach nag ynysu gweithgarwch addasu mewn cronfa ar wahân. Rydym yn parhau i annog cyrff i ystyried cyllid ar gyfer addasu yn rhagweithiol fel rhan o'u cynllunio seilwaith tymor hir-yn unol â'n strategaethau cyhoeddedig.

Rydym yn cydnabod y pwyntiau a godwyd yn yr adroddiad ar gyllid ac rydym wrthi'n edrych ar sut y gallwn adeiladu ar ein mecanweithiau cyllido presennol, gan gynnwys datgloi mynediad at gyllid ar gyfer cynllunio addasu mewn ffordd gynaliadwy a phriodol. Rydym yn archwilio modelau ar gyfer cyllid cynaliadwy, gan adeiladu ar waith archwilio ledled Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ein Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy. Rydym yn awyddus i barhau i ymgysylltu â'r Comisiwn yn y maes hwn.

*11.* ***Llwyfannau  Data***
*O fewn yr Hwb Dyfodol Hinsawdd, neu ar wahân, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu, neu hwyluso fel arall, lwyfannau ar gyfer corff data a deallusrwydd hinsawdd yng Nghymru, gwybodaeth hinsawdd hygyrch i'r gymuned a data hinsawdd rhanbarthol ar gyfer gweithwyr proffesiynol.*

Ymateb: **Derbyn**

Mae nifer o becynnau cymorth ac adnoddau data defnyddiol eisoes ar gael sy'n darparu data a gwybodaeth berthnasol i gefnogi cynllunio addasu. Mae'r rhain yn cynnwys Gwasanaeth Hinsawdd yr Awdurdod Lleol (LACS) a ddatblygwyd gan Ganolfan Hadley y Swyddfa Dywydd, sy'n darparu gwybodaeth ar lefel leol ar amcanestyniadau hinsawdd a thywydd eithafol. Er ei fod wedi'i ddatblygu i ddechrau i'w ddefnyddio gan awdurdodau lleol, mae LACS yn rhad ac am ddim ac yn ddefnyddiol i ystod eang o randdeiliaid eraill. Rydym yn gweithio gyda'r Swyddfa Dywydd ac eraill i sicrhau bod y cynhyrchion hyn yn helpu i gefnogi gweithredu yng Nghymru.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru yn darparu MapDataCymru fel canolbwynt ar gyfer cyflwyno data hinsawdd geo-ofodol a dadansoddol ynghyd â gwybodaeth ofodol arall, megis data amgylchedd dan do a bregusrwydd adeiladau, gan gynnwys canlyniadau ansawdd aer dan do, asesiadau gorboethi a dangosyddion diraddio ffabrig adeiladau.

Byddem yn gwerthfawrogi ymgysylltu parhaus â'r Comisiwn ynghylch sut i sicrhau bod yr wybodaeth hon mor glir a hygyrch â phosibl i randdeiliaid a chymunedau Cymru.

*12.* ***Cydlynu Rhynglywodraethol***
*Dylai Llywodraeth Cymru eirioli dros fwy o gydlynu a chynrychiolaeth rhynglywodraethol ledled y DU ar wydnwch seilwaith.*

Ymateb: **Derbyn**

Rydym yn cytuno ar bwysigrwydd hyn fel maes. Mae Fframwaith Gwydnwch Cymru yn tanlinellu'r cyfleoedd o weithio ledled y DU yn y gofod hwn, ac yn nodi'r camau rydym yn eu cymryd i gyflawni hyn ar draws ystod o feysydd.